# Gweithlyfr Cydweithio a Chomisiynu Iechyd, Gofal a Lles

## Croeso

Mae sgyrsiau parhaus am gydweithio a chomisiynu gwasanaethau iechyd, gofal a lles yng Ngorllewin Cymru.

Rhwng ein mudiadau trydydd sector lleol, mae gennym ni gyfoeth o brofiadau – proffesiynol a phersonol – i'w rhannu.

Bwriad y Gweithlyfr hwn yw eich helpu chi i ddechrau meddwl am weithio ar y cyd, tendro am waith a gomisiynir, neu ymuno â chynghrair ffurfiol dan gontract.

## Cyd-destun

Mae mwy o gomisiynu cydweithredol wedi bod yng Ngorllewin Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Gyda pheth diddordeb mewn creu cynghreiriau dan gontract ffurfiol.

Mae ymgais flaenorol yn Ne Cymru i symud i gomisiynu cynghrair dan gontract ffurfiol wedi'i gohirio, er mwyn ymgynghori ymhellach â'r trydydd sector. Mae adroddiad yn deillio o hyn yn argymell ymgysylltu'n llawnach â'r sector i ateb cwestiynau a phryderon. Gydag ymagwedd gyd-gynhyrchu at gomisiynu cydweithredol i ddiwallu anghenion unigol a chymunedol.

Mae Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro (CAVDAS) yn enghraifft o gontract cynghrair ffurfiol wedi'i gomisiynu'n gydweithredol sy'n llwyddiannus a pharhaus. Mae'n cael ei arwain gan dri sefydliad defnyddio sylweddau Cymreig a Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro. Gyda chynghreiriau eraill yn yr Alban a Lloegr yn darparu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion pobl yn eu hardaloedd.


Datblygwyd y Gweithlyfr hwn fel rhan o brosiect 3 mis, a ariannwyd gan Grant Arloesi Fforwm Adran 16 gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

# Ffyrdd o gydweithio

Gadewch i ni ddiffinio'r hyn a olygwn yn y cyd-destun hwn, drwy gydweithio, rhwydweithiau, partneriaethau a chynghreiriau:

**Cydweithio anffurfiol:** Pobl yn dod at ei gilydd oherwydd bod ganddynt rywbeth yn gyffredin, diddordeb a rennir.Mae'r rhain yn dda ar gyfer meithrin perthnasoedd a chyfnewid syniadau. Mae anffurfioldeb a bod yn agored yn bwysig.

Gall unrhyw syniadau a rennir arwain at newidiadau yn y ffordd y mae rhai pobl yn gweithio, ond mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau mawr i fusnes craidd, datblygiadau neu newidiadau arwyddocaol.Nid dyna hanfod y cydweithio anffurfiol hyn.



**Rhwydwaith â phwrpas:** Mae grŵp o bobl yn dod at ei gilydd am reswm penodol. Mae'n bosib y bydd cyllid wedi'i neilltuo, naill ai'n cael ei ddyfarnu'n allanol neu'n cael ei ddatblygu gan aelodau o'r rhwydwaith drwy gyfuno arian.

Mae rhwydweithiau'n dda ar gyfer meithrin perthnasoedd, ac efallai y bydd rhywfaint o rannu adnoddau a phobl i gyflawni tasg.Fodd bynnag, mae'n dal yn annhebygol y bydd newid parhaol i arferion gwaith, ac mae'r gweithgaredd fel arfer yn cael ei weld fel 'ychwanegiad' i fusnes arferol, ac nid y 'gwaith bob dydd'.

**Partneriaethau:** Gall y rhain amrywio o berthnasoedd strategol lle mae sefydliadau, er enghraifft, yn cynnig gyda'i gilydd am gyllid, i gyfrifoldeb ar y cyd am gyflenwi gwasanaethau.

Yn y mwyafrif o bartneriaethau rydych chi'n gweld trefniadau lle mae pob parti yn cyflawni ei gyfran o'r gwaith, a phobl yn dod at ei gilydd bob mis neu bob hyn a hyn i drafod eu cynnydd. Efallai y bydd rhywfaint o adrodd ar y cyd neu weithio ar y cyd arall, ond nid bob amser.


**Cynghreiriau dan gontract ffurfiol:** Pan fyddwn yn sôn am gynghreiriau, rydym yn golygu cydweithrediad lle mae pawb yn gyfrifol am bopeth, nid dim ond eu maes arbenigedd neu gyflenwi eu hunain. Nid yw'n endid cyfreithiol newydd - mae contract cynghrair yn cael ei lofnodi gan bob aelod, ac mae aelodau'n cadw eu hunaniaeth a'u rheolaethau mewnol eu hunain.Fodd bynnag, mae aelodau'r gynghrair yn cynllunio gyda'i gilydd, yn gwneud y penderfyniadau mawr gyda'i gilydd, ac yn helpu ei gilydd.

Maent yn rhannu'r holl gyfleoedd, cyfrifoldebau a risgiau yn llawn. Yn ei hanfod, byddant i gyd yn llwyddo neu'n methu gyda'i gilydd. Efallai bod hynny'n swnio'n frawychus, ond dyna'r cynhwysyn hud sy'n arwain at drawsnewid a llwyddiant.

'Ffyrdd o gydweithio' wedi'i gymryd o Bapur Briffio Comisiynu Cynghreirio a Chontractio Cynghrair PAVS, a ysgrifennwyd gan Ideas Alliance ac a ddarluniwyd gan Pobl Tir Môr

# Deall y Jargon

Dewch i ni ymgyfarwyddo â pheth o iaith y sector. Beth fyddech chi'n ei ychwanegu?



# Diffinio rhai termau cyffredin

**Fframweithiau Asesu**
Offer a chanllawiau strwythuredig a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i asesu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol unigolion. Mae enghreifftiau'n cynnwys Fframwaith Asesu Integredig ar gyfer pobl hŷn a Fframwaith Canlyniadau Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**Arfer Gorau**
Y dulliau mwyaf effeithiol o gyflenwi gwasanaethau gofal iechyd a lles yng Nghymru, yn seiliedig ar dystiolaeth, canllawiau polisi (e.e. Fframweithiau Ansawdd a Diogelwch Byrddau Iechyd), a modelau llwyddiannus o ofal integredig.

**Cynlluniau Gofal**
Cynlluniau personol a ddatblygir gan Fyrddau Iechyd a thimau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol, i amlinellu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol unigolyn, gan nodi sut y bydd gwasanaethau (e.e. gofal cartref, adsefydlu, neu gymorth iechyd meddwl) yn cael eu cyflenwi.

**Comisiynu Cydweithredol**
Proses lle mae Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, a mudiadau trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ac ariannu gwasanaethau, cyfuno adnoddau i greu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Cyd-gynhyrchu**
Model cydweithredol lle mae defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol, a chymunedau ar y cyd yn cynllunio ac yn darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gan sicrhau bod profiad byw yn llywio penderfyniadau. Mae'n egwyddor allweddol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Comisiynwyr**
Gweithwyr proffesiynol o fewn Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio, ariannu a goruchwylio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cymunedau ac yn cyd-fynd â pholisïau a deddfwriaeth genedlaethol.

**Contractau**
Cytundebau ffurfiol rhwng Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, a darparwyr gwasanaethau (gan gynnwys sefydliadau preifat, mudiadau gwirfoddol a thrydydd sector) yn amlinellu telerau, cyllid, a disgwyliadau perfformiad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd a lles yng Nghymru.

**Arfer yn Seiliedig ar Dystiolaeth**
Gwneud penderfyniadau a chyflenwi gwasanaethau wedi'u llywio gan yr ymchwil ddiweddaraf, canllawiau clinigol (fel y rhai gan NICE ac Iechyd Cyhoeddus Cymru), a mewnwelediadau seiliedig ar ddata, i wella canlyniadau cleifion.

**Deddfwriaeth**
Y fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys gweithredoedd allweddol megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Iechyd y Cyhoedd 2017.

**Allbynnau**
Canlyniadau diriaethol gwasanaethau Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, megis nifer y cleifion a gafodd driniaeth, nifer y cynlluniau gofal a grëwyd, nifer y sesiynau cymorth iechyd meddwl a ddarparwyd.Gellir nodi allbynnau mewn contractau a chytundebau eraill.

**Caffael**
Y broses a ddefnyddir gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i gaffael gwasanaethau gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a lles gan ddarparwyr allanol, gan sicrhau gwerth am arian, cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael y sector cyhoeddus, a chadw at egwyddorion gwerth cymdeithasol.

**Canlyniadau Ansoddol**
Effeithiau anfesuradwy ond ystyrlon gwasanaethau iechyd a lles yng Nghymru, megis profiadau cleifion, atborth defnyddwyr gwasanaethau, ac astudiaethau achos yn dangos gwelliannau mewn lles ac ansawdd bywyd.

**Canlyniadau Meintiol**
Data mesuradwy yn adlewyrchu effaith gwasanaethau iechyd a lles yng Nghymru, megis amseroedd aros ysbytai, sgorau bodlonrwydd cleifion, gostyngiadau mewn derbyniadau brys, neu welliannau mewn dangosyddion iechyd cyhoeddus.

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB)**
Corff statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i wella cydweithio rhwng Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, a mudiadau trydydd sector. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar draws rhanbarthau yng Nghymru, gan sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau a chanlyniadau gwell i bobl ag anghenion gofal cymhleth.

**Adran 16**
Mae hyn yn cyfeirio at Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy’n hyrwyddo cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, a mudiadau trydydd sector, i wella gwasanaethau lles.

**Cyflenwi Gwasanaethau**
Y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a ddarperir gan Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, a sefydliadau partner, gan sicrhau gofal o ansawdd uchel, hygyrch, sy'n canolbwyntio ar yr unigolion, yn unol â strategaethau cenedlaethol fel Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI)**
Fframwaith a ddefnyddir gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, i fesur y buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a gynhyrchir gan wasanaethau iechyd a lles, gan sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posib ar gymunedau.

**Gwerth Cymdeithasol**
Y buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol a grëir gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y tu hwnt i'w swyddogaeth graidd, fel y'u hyrwyddir yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

**Trydydd Sector**
Mudiadau nad ydynt yn rhai sector cyhoeddus (sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth) na'r sector preifat (busnesau sy'n cael eu gyrru gan elw). Mae'r trydydd sector yn cynnwys elusennau, mudiadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol, a grwpiau cymunedol sy'n darparu gwasanaethau iechyd a lles hanfodol yng Nghymru. Mae'r mudiadau hyn yn aml yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, eiriolaeth a chymorth cymunedol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,** sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gan sicrhau bod gwasanaethau'n hybu iechyd a lles cynaliadwy.

**Tryloywder**
Ymrwymiad Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i wneud penderfyniadau agored, atebolrwydd cyhoeddus, ac adrodd clir ar berfformiad, canlyniadau gwasanaeth, a gwariant ariannol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru ar lywodraethu ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

# Beth sy'n cyfrif fel cydweithio da i chi a'ch mudiad?

- Byddwch yn hunanol a chanolbwyntiwch ar eich mudiad yn unig
- Meddyliwch sut y byddai'n edrych ac yn teimlo
- Meddyliwch am yr hyn y byddai'n ei olygu i chi

Er mwyn i gydweithio fod yn union fel yr hoffech iddo fod, **byddai fel beth?**

Er mwyn i gydweithio fod fel hyn, **bydd angen i chi fod fel beth?**

Er mwyn i gydweithio fod fel hyn, ac i chi fod fel hyn, **pa gymorth neu adnoddau sydd eu hangen arnoch chi?**

Dyma rai ymatebion am 'gydweithio da' gan bobl a ddaeth i'r gweithdai a gynhaliwyd gennym ar ddechrau 2025



# Ffurfio cydweithio da

Mae gwneud ‘Dadansoddiad SWOT’ yn eich helpu i ddeall beth allwch chi ei gynnig, a beth sydd ei angen i chi ei ddatblygu. Mae cymharu hyn â chydweithwyr posib yn helpu gyda thryloywder, datblygu ymddiriedaeth, a nodi meysydd y gallwch gefnogi eich gilydd, neu geisio cymorth pellach.


## Pa Gryfderau a Gwendidau sydd gennych?

## Beth yw eich Cyfleoedd a’ch Bygythiadau?

## Beth yw fy ngham nesaf?

## Pa adnoddau neu gymorth sydd angen arnaf?

# Y Cylch Comisiynu




"Mae perthynas symbiotig rhwng y tair elfen, ac nid ydynt yn swyddogaethau unigol ar wahân."

"Mae'r holl gamau a gweithgareddau yn y cylch comisiynu yn bwysig ac yn angenrheidiol er mwyn comisiynu'n effeithiol a chyflawni canlyniadau llesiant i bobl ar sail 'yr hyn sy'n bwysig' iddyn nhw. "

O: **Deddf Gwasanaethau  Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer (t.7)

# 7 Egwyddor Ideas Alliance ar gyfer Cynghreiriau dan Gontract Ffurfiol

## 1. Cydgyfrifoldeb

Cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi i wasanaethau;

## 2. Y gorau i bobl

Gwneud penderfyniadau ar sail 'y gorau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau';

## 3. Gwneud penderfyniadau unfrydol

Ymrwymo i wneud penderfyniadau unfrydol, seiliedig ar egwyddor a gwerth ar bob mater allweddol;

## 4. Dim bai, Dim beio

Mabwysiadu diwylliant 'dim bai, dim beio' ymhlith cyfranogwyr y gynghrair, a cheisio osgoi pob anghydfod ac ymgyfreitha (ac eithrio mewn achosion cyfyngedig iawn o ddiffyg bwriadol);

## 5. Llyfr agored

Mabwysiadu cyfrifyddu llyfr agored a thryloywder ym mhob mater;

## 6. Ar sail y person gorau

Penodi a dewis unigolion ar gyfer rolau allweddol ar sail y person gorau;

## 7. Gwerthoedd ac ymddygiadau

Ymddwyn yn unol â gwerthoedd ac ymddygiadau'r Gynghrair bob amser.

Dysgwch fwy am ymagwedd Ideas Alliance tuag at gynghreiriau dan gontract ffurfiol: https://courses.ideas-alliance.org.uk/courses/introduction-to-alliances